

Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint Dogfen Ymgynghori

Fersiwn i'r Plant
2015



Pwy ydym ni?

Cyngor Sir y Fflint sydd yn gyfrifol am yr holl ysgolion yn ein hardal.

Rydym yn rhan o dîm sy'n gweithio i'r Cyngor i gefnogi ysgolion.



Ein Nodau

- Rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn ddysgu mewn ysgolion ardderchog yn ein hardal.
- Sicrhau adeiladau ysgol diogel a chryf.
- Sicrhau bod arian ar gyfer plant ac ysgolion yn ein hardal yn cael ei wario mewn ffordd deg.
- Rhoi llais i bawb a sicrhau eu bod yn cael eu clywed os bydd penderfyniadau yn effeithio arnynt.



Newidiadau

Nid oes modd i bob ysgol aros fel ag y mae bob amser, ac weithiau mae hyn yn golygu bod rhaid i'r Cyngor wneud newidiadau pwysig iawn.

Gall newidiadau helpu i roi'r cyfle gorau i bawb ddysgu, yn yr ysgol gorau posibl.



Beth mae hyn yn ei olygu?

Gall hyn olygu y bydd Ysgol Maes Edwin yn cau yn y dyfodol.

Petai Ysgol Maes Edwin yn cau, fe fyddi di'n mynd i ysgol wahanol ger dy gartref yn Sir y Fflint.



Beth fyddai'n newid?

Petai ti'n mynd i ysgol wahanol, fe fyddai dy ddosbarth yn newid ac fe fyddai gennyt ti athro newydd. Fe fyddai gennyt ti wisg ysgol newydd hefyd.



Pa mor hir pethau'n cymryd?

Hydref 2015

Rhagfyr 2015

Ionawr 2016

Medi 2016

1. Pobl yn dweud eu barn wrthym.

2. Rydym yn casglu'r holl ymatebion ac yn dweud wrth bawb beth yw'r prif sylwadau.

3. Bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfod i benderfynu beth i'w wneud. Yna byddwn yn gadael i bawb wybod beth yw'r penderfyniad.

4. Bydd unrhyw newid y cytunir arno yn cychwyn o'r dyddiad hwn.



Eisiau gwybod mwy?

Os wyt ti eisiau dysgu mwy, mae gwybodaeth mewn dogfen lawer mwy ar y rhyngwrdd i rieni, athrawon ac aelodau o gymuned eich ysgol. Mewngofnodwch i:

www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation




Beth yw eich barn chi?

Mae'n bwysig iawn ein bod yn siarad gyda llawer o bobl wahanol am y syniad hwn, yn enwedig plant. Mae eich barn yn bwysig i ni.

Yn y llyfryn hwn, gelli ysgrifennu unrhyw beth rwyt yn dymuno ei ddweud wrthym ac unrhyw syniadau sydd gennyt ti.




I ba ysgol wyt ti'n mynd, a beth yw dy oedran?



Rho dy atebion yn y bocs.




Sut fyddet ti'n teimlo pe bai Ysgol Maes Edwin yn cau?



Rho wybod i ni beth yw dy farn drwy ysgrifennu dy atebion yn y bocs.




Oes unrhyw beth arall yr hoffet ti ei weld yn digwydd yn hytrach na'r hyn yr ydym ni yn ei gynllunio?



Rho wybod i ni beth yw dy farn drwy ysgrifennu dy atebion yn y bocs.



Oes arnat ti eisiau dweud unrhyw beth arall?



Rho dy atebion yn y bocs.



Beth sy'n digwydd nesaf?

Postia dy lyfryn wedi'i lenwi atom erbyn **dydd Mercher, 2 Rhagfyr 2015**. Yn anffodus, ni fydd gennym hawl i dderbyn unrhyw beth y byddi di'n ei anfon atom ar ôl y dyddiad yma.

Cyfeiriad: Tîm Moderneiddio Ysgolion,
Addysg a Ieuencid, Cyngor Sir y Fflint,
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7
6ND.

Neu gelli anfon dy sylwadau
ar neges e-bost: 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk



Diolch

